MND Association Cymru

# Maniffesto i Gymru

**2026 a thu hwnt**

---

## Ynghylch Clefyd Motor Niwron

Mae Clefyd Motor Niwron yn glefyd angheuol sy'n datblygu'n gyflym ac sy'n effeithio ar yr ymennydd a llinyn yr asgwrn cefn.Mae'n lladd traean o bobl o fewn blwyddyn o ddiagnosis, a mwy na hanner o fewn dwy flynedd. Nid oes iachâd.

Mae dros 250 o bobl yng Nghymru yn byw gydag MND a'r siawns oes o ddatblygu'r clefyd yn 1 mewn 300. Ledled y DU, mae 6 o bobl y dydd yn cael diagnosis o MND ac mae 6 o bobl yn marw.

Mae'r Gymdeithas MND yn canolbwyntio ar wella mynediad i ofal, ymchwil, ac ymgyrchu ar gyfer pobl sy'n byw gydag ac yr effeithir arnynt gan MND yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Wrth i ni nesáu at etholiadau'r Senedd yn 2006, mae Cymdeithas MND wedi nod 5 maes allweddol i ganolbwyntio arnynt gyda'r nod o wella bywydau pobl sy'n byw gydag ac yr effeithir arnynt gan MND yng Nghymru. Rydym yn annog pob plaid wleidyddol a phob ymgeisydd i ymrwymo i'n ceisiadau i'n helpu i gyflawni Cymru lle mae modd trin MND a lle y gellir ei wella, a lle mae pawb yn gallu cael mynediad at y gofal sydd ei angen arnynt pan fydd ei angen arnynt.

## Darparu gwasanaeth teg

Mae gofal a chymorth amlddisgyblaethol yn y gymuned yn hanfodol i fynediad amserol a theg at gymorth gyda chlefyd sy'n datblygu'n gyflym fel MND.

Ledled Cymru, mae gan bobl ag MND fynediad annheg at niwrolegwyr, seicolegwyr a gwasanaethau gofal liniarol, gyda llawer yn gorfod aros am amser hir am ddiagnosis a theithio pellteroedd hir, yn aml i Loegr, i gael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae cael gofal cymunedol wedi'i gydlynu gyda hyfforddiant arbenigol yn helpu pobl sy'n byw gydag MND i reoli eu symptomau, gwella ansawdd eu bywydac arbed costau sylweddol i wasanaethau statudol eraill.

**Rydym angen:**

- Rhagolygon ariannu tymor hwy ar gyfer byrddau iechyd lleol i sicrhau eu bod yn ymrwymo i drosglwyddo gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau trydydd sector yn fewnol
- Buddsoddiad wedi'i dargedu mewn gwasanaethau niwrolegol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol sy'n diwallu anghenion pobl sy'n byw gydag MND
- Cynyddu argaeledd gwaith gofal hyfforddedig a staff nyrsio
- Gweithredu'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol a thargedau clir i fesur cynnydd a chynyddu atebolrwydd.

## Tai hygyrch

I bobl sy'n byw gydag MND, mae tai hygyrch yn hanfodol i gynnal eu hurddas a'u hannibyniaeth.

Mae'n bosibl cadw derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer pobl â'r clefyd yn isel cyn belled ag y gallant aros yn ddiogel yn eu cartrefia'u cymunedau eu hunain. Mae addasiadau cartref ar gyfer clefydau cymhleth fel MND yn ddrud ac mae darparu grantiau cyfleusterau (DFGs) i'r anabl yn amserol yn allweddol i sicrhau bod cartrefi'n ddiogel ac yn hygyrch. Yn 2021, fe wnaethom ryddhau ein Hadroddiad Cartrefi Cymru ar gyfer MND[1]. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gael gwared ar y prawf modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl bach a chanolig a rhoi rhaglenni carlam ar waith ar gyfer addasiadau tai.

Er gwaethaf hyn, mae sawl awdurdod lleol yn dal i gynnal prawf modd ac mae llawer heb gyflwyno proses llwybr carlam eto. Mae angen i hyn newid.

**Rydym angen:**

- Llywodraeth Cymru i fandadu awdurdodau lleol i gael gwared ar y prawf modd a rhoi systemau llwybr cyflym ar waith
- Data sydd ar gael i'r cyhoedd ar gyflawni DFGs i fonitro gweithrediad ymrwymiadau Llywodraeth Cymru
- Safonau Gwasanaeth Addasiadau tai i'w diweddaru.

— Awdurdodau lleol i greu a chynnal cofrestrau tai hygyrch

## Cefnogi gofalwyr MND

Mae gofalwyr MND yn cymryd llawer iawn o bwysau oddi ar y systemau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru drwy fynd i'r afael ag anghenion a fyddai fel arall yn disgyn i wasanaethau statudol.

Rydym yn amcangyfrif bod gofalwyr MND, ledled y DU, yn arbed £185 miliwn y flwyddyn i'r GIG, sy'n cyfateb i £37,000 fesul gofalwr y flwyddyn[2]. Er gwaethaf hyn, y cymorth ariannol a ddarperir o ofalwyr d-dâl yw'r budd-dal lles isaf o hyd ac mae arosiadau hir am asesiadau gofalwyr yn cyfyngu ar fynediad at y cymorth sydd ar gael.

Mae bron pob un o'r gofalwyr MND (94%) yn credu bod cyfradd gyfredol y lwfans yn annigonol i gwrdd â'u hanghenion, a dim ond 25% o'r gofalwyr MND sydd naill ai wedi derbyn asesiad gofalwr neu yn y broses o gael un[3].

**Rydym angen:**

— Gweithio rhynglywodraethol i adolygu lefel y Lwfans Gofalwr a diwygio mynediad ato

— Cyllid wedi'i dargedu ar gyfer gofalwyr di-dâl yng Nghymru i ategu hyn, gan gynnwys gwarant hirdymor ar gyfer y gronfa cymorth i ofalwyr

— Monitro awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn cefnogi hawliau gofalwyr drwy gynnig asesiad gofalwr i bob gofalwr sy'n caniatáu pecynnau cymorth gan gynnwys seibiant

— Ymgyrch codi ymwybyddiaeth i gynyddu'r nifer sy'n cael asesiadau gofalwyr.

## Hyrwyddo ymchwil MND

Mae ymchwil gydweithredol o ansawdd uchel yn allweddol i ddod o hyd i iachâd ar gyfer MND.

Fodd bynnag, nid yw pawb sy'n byw gyda MND yng Nghymru yn gallu cael mynediad i dreial clinigol oherwydd lefelau amrywiol o adnoddau a gwybodaeth ar draws byrddau iechyd lleol. Mae materion o'r fath hefyd yn creu rhwystrau rhag cael mynediad at driniaeth newydd a phrofion genetig i bobl â mathau teuluol o MND. Mae buddsoddi yn y maes hwn yn allweddol i ganfod ac atal symptomau yn gynnar.

**Rydym angen:**

— Cyllid cynaliadwy wedi'i glustnodi ar gyfer ymchwil MND

— Adnodd pwrpasol ar gyfer profion genetig yng Nghymru

— Ymgyrchoedd i addysgu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar ymwybyddiaeth o MND a llwybrau triniaeth yng Nghymru

# Y dirwedd wleidyddol ehangach

Mae llawer o'n gofynion wedi'u cyfyngu gan setliad ariannu Llywodraeth Cymru.

Wrth i'r pwysau ar wasanaethau statudol barhau i gynyddu, ni ellir mynd i'r afael â'r diffyg adnoddau o fewn awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ledled Cymru heb i Llywodraeth Cymru gael digon o arian i wneud hynny. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi rhybuddio, er gwaethaf y cynnydd diweddar yn y setliad llywodraeth leol, fod pwysau cyllidebol sylweddol yn parhau oherwydd y cynnydd yn y galw am wasanaethau, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol a thai[4]. Mae hyn yn gadael anghysondeb o ran mynediad at gymorth a gwasanaethau yng Nghymru a thros y ffin, gan arwain at arosiadau hir am gymorth, pecynnau gofal datgysylltiedig, a phryderon difrifol ynghylch casglu data a mynediad i bobl sy'n byw gyda MND ledled Cymru.

**Rydym angen:**

— Dull cydgysylltiedig o ddarparu gwasanaethu ledled Cymru, gyda thegwch ar draws pob awdurdod lleol a bwrdd iechyd lleol

— Ailystyried y setliad ariannu ar gyfer Cymru, gan symud i fodel sy'n cael ei arwain gan anghenion

— Ymchwilio i ddatganoli budd-daliadau lles

**"Pan ydych yn ofalwr mae bron fel bod gennych chi MND, nid yn yr ystyr gorfforol, mwy yn yr ystyr emosiynol. Ac rydych yn teimlo allan o reolaeth, yn ddiymadferth — roedd dwyster y cyfan yn anhygoel."**

Gofalwr MND yng Nghymru

## Cyfeiriadau

1. https://www.mndassociation.org/sites/default/files/2022-12/Welsh-Homes-for-MND-Report-ENGLISH.pdf

2. https://www.mndassociation.org/sites/default/files/2024-10/2024%20MND%20Carer%20Triple%20Burden%20full%20report.pdf

3. https://www.mndassociation.org/sites/default/files/2023-11/State%20of%20Carers%E2%80%99%20Assessments%20report%202023.pdf

4. https://research.senedd.wales/research-articles/draft-budget-2025-26-five-things-we-ve-learnt-from-scrutiny/

**© MND Association, 2026**
Motor Neurone Disease Association
Francis Crick House
6 Summerhouse Road
Moulton Park
Northampton NN3 6BJ

Ffôn: 01604 611860
Ebost: campaigns@mndassociation.org
Gwefan: mndassociation.org

Rhif Elusen Gofrestredig: 294354

MND Association Cymru

**Bob dydd rydym yn cefnogi pobol sydd wedi effeithio gan clefyd Motor Niwron. Oherwydd gyda MND, mae pob dydd yn cyfri.**